Swydd Disgrifiad:

Swyddog Digidol a Hyrwyddo

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru / Llwyddo'n Lleol

Lleoliad: Bangor/Hybrid

Cyflog: £18-20,000 pro rata

Swydd 3-5 diwrnod yr wythnos, yn agored i drafodaeth.

Am y Gymdeithas:

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Nod y Gymdeithas yw cynnal, sicrhau a hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Am y Swydd:

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ar y cyd â Llwyddo'n Lleol, yn chwilio am Swyddog Digidol a Hyrwyddo i ymuno â'r tîm ym Mangor. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu a chyflawni strategaethau hyrwyddo a marchnata digidol ar gyfer ein haelodau, y cyhoedd a'r wasg. Byddant yn cydweithio â'r tîm i ddatblygu a chyflawni cynlluniau digidol creadigol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â'r Gymdeithas a'i blaenoriaethau strategol. Rhan allweddol o'r swydd fydd hyrwyddo cyfieithu fel gyrfa a denu cyfieithwyr newydd i'r proffesiwn.

Prif Ddyletswyddau:

- Datblygu a rheoli cynnwys digidol ar gyfer y Gymdeithas, gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, a thrafodaethau ar-lein.
- Creu a rheoli cynlluniau ar-lein i hyrwyddo gwasanaethau a buddion aelodau.
- Monitro effeithiolrwydd strategaethau digidol a marchnata a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Prif Swyddog a'r Bwrdd.
- Cydweithio â'r tîm i ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd cyfathrebu digidol effeithiol.
- Cynorthwyo gyda rheoli data a dadansoddi data i wneud penderfyniadau digidol strategol.
- Gweithio gyda'r tîm i ddysgu am amgylchedd masnach aelodau ac adeiladu perthnasau cryf gydag aelodau a chyfleoedd partneriaeth.
- Mynychu digwyddiadau mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.

Gofynion Hanfodol:

- Y gallu technegol a chreadigol i greu cynnwys deniadol a gafaelgar ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Dealltwriaeth dda o ddefnyddio platfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gan gynnwys ysgrifennu creadigol a sgiliau cyfieithu (yn y Gymraeg a'r Saesneg). Mae'r Gymdeithas yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gallu gweithio'n effeithlon fel rhan o dîm ac fel unigolyn.

Yn ddymunol:

- Gradd mewn marchnata, cyfryngau, neu ddisgyblaeth debyg.
- Dealltwriaeth o'r sector cyfieithu.
- Dealltwriaeth o'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn hyfforddiant, gyda chynllun mentora ac aelodaeth myfyriwr o'r CIM (www.cim.co.uk/membership/affiliate-studying/)

Mae'r Gymdeithas yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir.

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r Prif Swyddog; Gwyn Williams
gwyn.williams@cyfieithwyr.Cymru 07831-092524

I ymgeisio ewch i https://menterabusnes.welcomesyourfeedback.net/s/6vgffs

Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau: 8/3/2024

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Ariennir y Gymdeithas yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.
Noddir y swydd hon yn rhannol gan gynllun "ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050"